

Adolygiad Cenedlaethol o Wasanaethau Mamolaeth

Panel Cyngori

Cylch Gorchwyl

Cefndir

Mae AGIC wedi lansio adolygiad cenedlaethol o wasanaethau mamolaeth ledled Cymru. Bydd yr adolygiad yn rhedeg o fis Mehefin 2019 tan haf 2020, pan fyddwn yn cyhoeddi adroddiad Cymru gyfan.

Bydd yr adolygiad yn ystyried y canlynol:

- Profiad menywod, eu partneriaid a'u teuluoedd

Bydd hefyd yn ystyried i ba raddau y mae byrddau iechyd ledled Cymru yn gwneud y canlynol:

- Darparu gwasanaethau mamolaeth diogel ac effeithiol
- Deall cryfderau eu gwasanaethau mamolaeth a'r meysydd i'w gwella.

Diben y Panel Cyngori

Bydd y Panel Cyngori yn cynnig cymorth a chanllawiau manwl i Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ar roi'r Adolygiad Cenedlaethol o Wasanaethau Mamolaeth ar waith.

Bydd AGIC yn casglu eu barn ar faterion penodol ar sail ad hoc yn fwy rheolaidd na'r grŵp rhanddeiliaid.

Rôl y Panel Cyngori

Rhoi cyngor ar y meysydd canlynol:

- cynnig canllawiau ar y fethodoleg rydym yn ei datblygu ar gyfer Cam 2 o'r adolygiad, e.e. y llinellau ymholi allweddol ar gyfer cyfweiliadau llywodraethu gydag uwch-aelodau o staff y byrddau iechyd
- Gwirio ystyr ein dehongliad o themâu a thueddiadau sy'n dod i'r golwg o arolygiadau o unedau mamolaeth, arolygon cenedlaethol a chyfweiliadau llywodraethu i lywio ein hadroddiad cyffredinol
- Meysydd eraill i lywio'r adolygiad ehangach yn ôl yr angen.

Y dull o weithio

Caiff y panel ei gadeirio gan AGIC.

Bydd y panel yn cyfarfod ar gyfer sefydlu ac ymgyswngwddo â'r adolygiad ac AGIC.

Bydd y panel ar gael ar sail ad hoc er mwyn ymateb i e-byst a chyfarfod yn rhithwir yn ôl y gofyn.

Adnoddau

Caiff aelodau eu talu ar gyfradd fesul awr y cytunir arni. Caiff costau teithio a chynhaliadaeth eu had-dalu.

Bydd AGIC yn trefnu ac yn cynnal cyfarfodydd y panel cynghori.

Bydd AGIC yn dosbarthu unrhyw bapurau dros e-bost.

Caiff y cyfarfodydd eu cynnal yn Swyddfeydd Llywodraeth Cymru, neu'n rhithwir.

Trefniadau ymgynghori

Mae aelodau o'r panel cynghori yn gyfrifol am ymgynghori â'u proffesiynau/rhwedweithiau eu hunain cyn rhoi cyngor i AGIC yn ôl yr angen.

Trefniadau adrodd yn ôl

Caiff y cyngor a'r cymorth a gynigir gan y panel cynghori eu trafod a'u hystyried gan fwrdd prosiect mewnol AGIC er mwyn llywio'r ffordd y caiff yr adolygiad ei gynnal.

Caiff crynodeb o'r cyngor a gynigir gan y panel cynghori ei adrodd yn ôl i Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid yr Adolygiad o Wasanaethau Mamolaeth.

Amserlen

Dechreuodd yr adolygiad ym mis Mehefin 2019 a bydd yn gorffen yn ystod haf 2020.

Caiff y rhan fwyaf o waith y panel i gynnal rhwng mis Rhagfyr 2019 a mis Mai 2020.

Aelodau'r grŵp

Dau gynrychiolydd sy'n arbenigwyr ar anesthesia

Dau gynrychiolydd o'r proffesiwn obstetrig

Dau gynrychiolydd o'r proffesiwn bydweigiaeth

Bydd yr aelodau yn cynnwys cynrychiolwyr sy'n gweithio yng Nghymru neu wledydd eraill y DU ar hyn o bryd, neu sydd wedi gweithio ynddynt o'r blaen.

Cynrychiolwyr o AGIC:

Alun Jones Dirprwy Brif Weithredwr
Rhys Jones Pennaeth Uwchgyfeirio a Gorfodi
Erica Hawes Pennaeth Adolygiadau
Emma Scott Uwch-arolygydd Gofal Iechyd
Eleri Davies Rheolwr Prosiect